

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 11 Mehefin 2020 am 3.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd G Hughes Y Cyngorydd J Williams
Y Cyngorydd W Owen Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd D Williams Y Cyngorydd S Powderhill

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan

Y Cyngorydd A Roberts

203 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**204 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI
DATBLYGU**

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

205 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy

yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

206 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2020 yn rhai cywir.

207 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

208 CAIS RHIF: 19/1214

ESTYNIAD LLAWR CYNTAF Y TU CEFN I'R EIDDO, 16 STRYD LLYWELLYN, HENDREFORGAN, Y GILFACH-GOCH, PORTH

Cyflwynodd Reolwr Materion Rheoli Datblygu'r cais a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 5 Mawrth, 2020, lle'r oedd yr Aelodau o blaid cymeradwyo'r cais, yn groes i argymhelliad swyddog y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio (Mae Cofnod 194 yn cyfeirio at hyn).

Rhododd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y swyddogion ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Datblygu, oherwydd bod Aelodau o'r farn na fyddai'r cais yn cael effaith sylweddol ar naill ai amwynder gweledol yr ardal ehangach nag amwynder neu breifatrwydd preswyl yr eiddo cyfagos.

(NODWCH: Ni chymerodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams ran yn y bleidlais gan nad oedd yn bresennol ar gyfer y ddatllyth gyfan)

209 CAIS RHIF: 19/1235

Adeiladu annedd 3 ystafell wely. (Derbyniwyd cynllun safle diwygiedig 31/03/2020). Y TIR TU ÔL I RIF. 37 - 47 HEOL DEWI, BRYNNA, CF72 9SQ

Darllenodd Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio gynnwys dau lythyr a gafodd eu cyflwyno yn erbyn y cais.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaeth Cynllunio, yn amodol ar ddiwygio Amod 4 er mwyn gofyn am sgrîn breifatrwydd ar hyd ochr y teras ben to sy'n wynebu'r gorllewin.

210 CAIS RHIF: 19/1236

Cais amlinellol ar gyfer 5 plot hunanadeiladu gyda phob mater wedi'i gadw. TERAS SION, HEOL TIRFOUNDER, CWM-BACH, ABERDÂR

Cyflwynodd Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor gan dynnu sylw'r Aelodau at y geiriad sydd wedi'i ddiwygio ar gyfer Cytundeb Adran 106 fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad. Cafodd Aelodau wybod na fyddai'r gofyniad i ddiddymu'r caniatâd cynllunio blaenorol yn cael ei gynnwys. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn amodol ar Gytundeb Adran 106 ar gyfer y canlynol:

- Gwarchod natur - cytuno ar gynllun rheoli man agored cyhoeddus sy'n cynnwys gwaith sefydlu, dylunio a phennu trefniadau rheoli ardaloedd lliniaru ecolegol yn y tymor hir.

211 CAIS RHIF: 20/0048

Cynllun arfaethedig i drosi atig a 'fflat mam-gu' (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 03/03/2020). 2 LLYS Y CERDIN, CWMDÂR, ABERDÂR, CF44 8HB

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

212 CAIS RHIF: 20/0110

Amrywio amod 2 o'r cynlluniau wedi'u cymeradwyo (cais blaenorol 15/1007/10) er mwyn symud y tŷ a'r dreif. (Derbyniwyd CMRA ar 7 Mawrth 2020) Y TIR CYFERBYN Â 22 STRYD JESTYN, PORTH, CF39 0DN.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio fanylion yr amrywiad arfaethedig i amod 2 i'r Pwyllgor, a thrafododd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu'r Priffyrdd y cais a'r rhesymau ar gyfer yr argymhelliad fel sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Nododd yr Aelod o'r Pwyllgor, a'r Aelod Lleol, y Cynghorydd J.Williams ei phryderon am broblemau posibl mewn perthynas â pharcio a allai codi o ganlyniad i'r datblygiad a'r effaith ar eiddo cyfagos.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i ystyried yr effaith negyddol bosibl y gallai'r amrywiad i amod 2 ei chael ar yr eiddo cyfagos a phroblemau ar y priffyrdd mewn perthynas â pharcio.

213 CAIS RHIF: 20/0247

Estyniad un llawr. 2 WESLEY COTTAGE, HEOL ABERDÂR. ABERCYNON, ABERPENNAR, CF45 4NP

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.